| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Mehefin 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans / Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams** |
| **Teitl:** | **Diwygio Llywodraeth Leol - Papur Gwyrdd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn trafod Dogfen Ymgynghori Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, o'r enw Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni Dros Ein Pobl ("y Papur")

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod i'r Cyngor am gynnwys y Papur a chael cymeradwyaeth o ymateb y Cyngor iddo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried cynnwys y Papur sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac yn cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad drafft, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori, y Papur, sy'n gosod achos y Llywodraeth o blaid Diwygio Llywodraeth Leol a'r opsiynau y mae'n ystyried eu gweithredu er mwyn cyflawni hyn.

Y Papur yw'r nawfed ddogfen ymgynghori neu gyhoeddiad i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno ar y testun Diwygio Llywodraeth Leol ers ac yn cynnwys Adroddiad Comisiwn Williams ym mis Ionawr 2014. Ceir manylion y cyhoeddiadau a'r dogfennau hyn yn yr atodiadau i'r Papur.

Yn ôl Llywodraeth Cymru mae wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriadau blaenorol hyn wrth lunio'r cynigion sydd wedi'u nodi yn y Papur. Mae'r Papur wedi ei atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Cyflwynir ymatebion i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 12 Mehefin 2018.

Gwahoddwyd Arweinwyr Grŵp i drafod y Papur mewn cyfarfod ar 15 Mai.

Cynhaliwyd Gweithdy Aelodau ar 24 Mai er mwyn cael barn aelodaeth ehangach y Cyngor. Ymgynghorwyd ag aelodau’r Tîm Gweithredol Corfforaethol a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gynnwys y Papur.

Mae ymateb i'r ymgynghoriad drafft wedi’i baratoi, sy’n ceisio crynhoi'r adborth a gafwyd gan swyddogion ac aelodau yn dilyn y gwaith a ddisgrifiwyd uchod. Mae’r ymateb drafft ynghlwm fel Atodiad 2.

Gofynnir i’r Cyngor ystyried cynnwys Atodiad 2 a chymeradwyo ei gyflwyniad i Lywodraeth Cymru.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd yr ymateb i’r Papur yn peri unrhyw gostau.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad Effaith ar gyfer yr ymateb i’r ymgynghoriad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Ymgynghorwyd â’r Tîm Gweithredol Corfforaethol a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ystyriwyd y Papur yng nghyfarfod Arweinwyr Grŵp ac fe drafodwyd y Papur gan yr holl Gynghorwyr mewn gweithdy briffio a gynhaliwyd ar 24 Mai.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r posibilrwydd o newid mawr i lywodraeth leol yng Nghymru ar yr un pryd â rheoli toriadau parhaus i’r gyllideb yn peri risg sylweddol. Gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn os yw’r cynigion yn symud ymlaen. Rhaid ystyried goblygiadau cost unrhyw gynnig yn briodol yn genedlaethol ac yn lleol a dylai fod yn ddigon cadarn i wneud achos busnes i gefnogi’r penderfyniad terfynol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg, os nad yw’r Cyngor yn cyflwyno ymateb, y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ynglŷn â dyfodol Llywodraeth Leol, heb gyfle i ystyried safbwyntiau’r Cyngor hwn a’i Aelodau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

A111 Deddf Llywodraeth Leol 1972